GWNEWCH O AR-LEIN

HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## CANLLAW TALIADAU AR-LEIN I YSGOLION


1. Mewngofnodi 2

2. Taliadau Cyffredinol 4

3. Talu cinio ysgol 9

4. Clybiau 10

5. Newid PIN 12

6. Datrys Problemau 14


# GWNEWCH O AR-LEIN

HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC


**Gwneud taliadau ysgol ar-lein**

Ewch i wefan Cyngor Gwynedd i greu cyfrif neu os oes gennych gyfrif yn barod gallwch fewngofnodi yn syth - www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif

Cysylltwch â ni os ydych yn cael trafferthion - fynghyfrif@gwynedd.llyw.cymru




Ar ôl mewngofnodi cliciwch ar **'Talu am wasanaeth'**





Yna cliciwch ar **'Talu eich ysgol'**



# GWNEWCH O AR-LEIN

## HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

Gwnewch yn siŵr fod y rhif yma yr un fath a'r rhif sydd gan yr ysgol ar gyfer eich plentyn.




Rydych nawr ar dudalen system Schoolgateway.


**Cliciwch 'Anfon PIN'.**

Bydd PIN 4 digid yn cael ei yrru i chi drwy neges destun i'ch ffôn symudol.

**Byddwch angen y PIN yma bob tro y byddwch yn mewngofnodi felly cadwch o'n saff!**




Yna byddwch yn cael eich cyfeirio i'r dudalen gartref a bydd manylion eich plentyn / plant yn ymddangos yma.




**Os ydych yn cael problemau mewngofnodi cofiwch sicrhau bod eich e-bost a'ch rhif ffôn symudol sydd wedi eu cofrestru gyda'r ysgol yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd wedi ei gofrestru yn eich cyfrif Cyngor Gwynedd.**
**Cysylltwch â'ch ysgol i wneud yn siŵr fod ganddynt y manylion cywir.**

# GWNEWCH O AR-LEIN


HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Taliadau Cyffredinol

I weld neu i wneud taliad cliciwch yr eicon **'Taliadau'** ar y dudalen gartref.

Cliciwch y botwm **'Ychwanegu'** wrth ochr y taliad(au) perthnasol.








Nodwch faint ydych eisiau ei dalu yn y blwch **'swm'** yna clicio' **Ychwanegu i'r fasged'**.

Efallai y bydd angen i chi nodi eich caniatâd e.e. i blentyn fynd ar drip ysgol a / neu nodi unrhyw sylw mewn ymateb i gwestiwn gan yr ysgol.




Mae'n bosib i chi ychwanegu mwy o eitemau i'r fasged drwy ddilyn y camau uchod ac yna clicio **'Gweld y fasged'** ac yna clicio **'Talu'**. Yna byddwch yn cael crynodeb o daliadau fel hyn:



Crynodeb o daliadau

Adolygwch yr eitemau yn eich basged a chadarnhau bod yr holl fanylion yn gywir.

Pwyswch Talu er mwyn nodi eich manylion talu.

| Eitem | Ar gyfer | Caniatâd | Sylw | Swm |
|---|---|---|---|---|
| Pay Once 3 (1/1) | Robert Ackrington | | | £2.00 |
| Cyfanswm | | | | £2.00 |

Dychwelyd i'r rhestr taliadau  Talu


# GWNEWCH O AR-LEIN

HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Opsiwn 1 -Sefydlu Trosglwyddiad Banc Uniongyrchol


Gallwch roi eich manylion banc i fewn unwaith a bydd rhain yn cael eu cadw yn eich cyfrif wedyn.

Cliciwch **'talu'** yna **'Trosglwyddiad Banc Uniongyrchol'**




Rhowch eich enw llawn, cyfeiriad a manylion banc. Cliciwch **'talu'** i orffen.


Bydd gennych yr opsiwn i dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd gwahanol ar unrhyw adeg.



# GWNEWCH O AR-LEIN

## HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

Cliciwch **'anfon'** i gadarnhau'r manylion.




Bydd hyn yn cadarnhau eich bod yn fodlon sefydlu Trosglwyddiad Banc Uniongyrchol. Gallwch ddarllen y gwarant Debyd Uniongyrchol a cewch e-bost yn cadarnhau eich bod wedi sefydlu'r Trosglwyddiad Banc Uniongyrchol.

Unwaith bydd eich Trosglwyddiad Banc Uniongyrchol wedi ei sefydlu, byddwch yn gweld tudalen i adolygu eich taliad cyn symud ymlaen. I barhau dewiswch **Gwneud Taliad** neu i ddychwelyd i'r fasged i wneud unrhyw newidiadau dewiswch **Dychwelyd i'r fasged**.

Byddwch yn gweld cadarnhad fod y taliad wedi ei wneud.


Nodwch bod y taliad cyntaf drwy Drosglwyddiad Banc Uniongyrchol yn cymryd **4 diwrnod** i'r arian adael eich cyfrif. Bydd y taliadau wedi hynny yn cymryd **3 diwrnod**, ond bydd **yr ysgol yn gweld y credyd yn syth**.

## Opsiwn 2- Talu gyda cerdyn debyd neu gredyd

Nodwch fanylion y cerdyn a pherchennog y cerdyn a chliciwch **'Ewch Ymlaen'**.

I ganslo taliad a dychwelyd i'r Porth Ysgol, cliciwch **'Canslo'**.

Efallai y cewch eich arall gyfeirio i dudalen diogelu. Bydd hyn yn cael ei ddilysu gan Visa neu MasterCard SecureCode yn ddibynnol ar eich cerdyn.





Pan fydd eich taliad yn cael ei awdurdodi bydd manylion y trafodyn yn ymddangos.

I argraffu'r crynodeb, cliciwch **'Argraffu'**.

Cliciwch **'Cwblhau Taliad'**.

Byddwch wedyn yn mynd nol i'r Porth Ysgol. Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau manylion.




I ddychwelyd i'r rhestr o daliadau sydd ar gael i chi, cliciwch **'Yn ôl i'r dudalen taliadau'**.

# GWNEWCH O AR-LEIN


HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Hanes taliadau

Gallwch weld pob taliad rydych wedi eu gwneud trwy glicio **‘Hanes Talu’**

Gallwch newid y dyddiadau os ydych yn chwilio am daliad o fewn cyfnod penodol.

I arbed copi o hanes eich taliadau cliciwch y botwm **‘Lawrlwytho hanes trafodyn’**.




GWNEWCH O AR-LEIN


HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Taliadau Cinio


I wneud taliad am ginio cliciwch yr eicon 'Pres Cinio'.




I ychwanegu pres cinio cliciwch 'Ychwanegu Pres Cinio'.




Cliciwch **Ychwanegu** a gwneud taliad yn y ffordd arferol.




***Bydd cofrestr cinio yn creu credyd yn eich cyfrif pe bai plentyn yn absennol neu ddebyd pe bai plentyn yn cael cinio ond taliad heb ei dderbyn.***

# GWNEWCH O AR-LEIN


HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Clybiau

I fwcio a thalu am le mewn clwb e.e. Clwb Gofal Cyn-Ysgol, dewiswch yr eicon Clwb.....




Bydd hyn yn cynnig dyddiadau (mewn gwyn) i chi fwcio eich plentyn i mewn i'r Clwb a thalu am y Clwb yr un pryd.




# GWNEWCH O AR-LEIN

## HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

Cliciwch ar y dyddiad perthnasol ac yna dewis yr opsiwn cywir h.y.

1. Talu am y plentyn 1af neu'r 2il i fynychu clwb Gofal Cyn-Ysgol
2. Bwcio'r plentyn i gael brecwast am ddim yn unig
3. Pe bai'r plentyn yn 3ydd, 4ydd plentyn ayb yna bydd opsiwn pellach i fwcio'r plentyn hwnnw i'r Clwb Gofal yn ddi-gost (sef yr elfen disgownt)




Bydd angen gwneud hyn ar gyfer pob diwrnod ar wahân os nad ydych yn clicio'r botwm **DEWIS POPETH**.

Bydd pob sesiwn sydd wedi cael eu bwcio yn goleuo yn las.




Byddwch yn derbyn neges i gadarnhau'r sesiynau a thalu.




Yna bydd y dyddiadau yn troi'n wyrdd fel cadarnhad.




# GWNEWCH O AR-LEIN

HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Newid eich PIN i rif o'ch dewis chi


Pe byddwch eisiau newid eich rhif PIN ewch i **'Newid PIN'** ar dop dde y dudalen.




Nodi eich PIN presennol.


Nodi eich PIN newydd ac eto i'w gadarnhau.


Dewiswch **IAWN** i arbed eich PIN newydd.



## Ailosod eich PIN

I ailosod eich PIN, dewiswch **Wedi anghofio'ch PIN** yn y dudalen mewngofnodi.




Nodwch eich e-bost a rhif eich ffôn symudol sydd wedi ei gofrestru gyda'ch ysgol a dewis **Anfon PIN**.

Bydd PIN newydd yn cael ei yrru i chi drwy neges destun i'ch ffôn symudol.

# GWNEWCH O AR-LEIN

HAWDD . HWYLUS . CADW TRAC

## Datrys Problemau

Mae'r system daliadau bellach yn fyw yn ysgolion cynradd Gwynedd. Mae nifer eisoes yn defnyddio'r system yn barod ac mae rhai cwestiynau wedi codi.

Dyma atebion i rai o'r cwestiynau/ problemau sydd wedi codi...

- **Trafferth creu cyfrif Cyngor Gwynedd**
  Unrhyw drafferthion rydych yn eu cael ar y dudalen yma...

  Cysylltwch â **Chyngor Gwynedd** trwy:
  fynghyfrif@gwynedd.llyw.cymru




- **Trafferth mynd i mewn i dudalen Schoolgateway**
  Os ydych yn cael unrhyw drafferthion ar y dudalen yma, cysylltwch a'ch **Ysgol Gynradd**.

  Rhaid i'r **e-bost** a **rhif ffôn symudol** rydych yn eu defnyddio yma fod yr un fath â'r manylion sydd gan eich ysgol amdanoch chi. Sicrhewch bod y manylion yn gywir gan yr ysgol.




- **Enw Ysgol neu enw eich plentyn yn anghywir yn Schoolgateway**
  Os yw'r manylion yma yn anghywir...

  Cysylltwch a'ch **Ysgol Gynradd**.
  Gall yr ysgol drefnu i gywiro'r wybodaeth ar eich rhan.




- **Absenoldeb** – Os ydy'ch plentyn wedi bod yn absennol a chithau wedi talu am ginio yn barod, trafodwch efo'ch ysgol beth i'w wneud.